# Rebeca



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Mae’r wers wythnos yma yn delio gydag Abraham yn chwilio am wraig i Isaac.

Mae Duw yn arwain ei was at Rebeca. Genesis 24 yw ein darn o’r Beibl.

Rhai o’n prif bwyntiau’r wythnos yma:

- Pwysigrwydd cael perthynas gyda’r bobl iawn.
- Mae Duw yn anrhydeddu'r da rydym yn gwneud i eraill.
- Mae’n beth da i ofyn am gymorth Duw.

Video playlist

inc video lesson

## Canllaw y wers

Atgoffwch eich plentyn am Abraham, Sara ac Isaac ac addewid Duw wrthynt

(gwelir y wers ‘Genedigaeth Isaac’).

Eglurwch fod Isaac wedi tyfu i fyny a’i fod yn barod i briodi. Os oes gennych luniau priodas eich hun neu luniau o briodas Taid a Nain eich plentyn, pam ddim eu defnyddio i gyflwyno’r wers wythnos yma? Bydd y plant a diddordeb i weld sut oedd pobl yn arfer edrych, neu hyd yn oed os ydynt yn adnabod y bobl. Bydd edrych ar luniau priodas yn eu helpu i ddeall beth yw priodas a hanes Isaac a Rebeca.

Rhannwch sut oedd y bobl yn byw yn agos i Abraham ddim yn caru Duw. Gwyddai Abraham na fyddent yn gwneud gwraig dda i’w fab. Anfonodd Abraham ei was i ddarganfod rhywun oedd yn caru Duw a byddai’n Ei ddilyn. Eglurwch fel mae’n bwysig i ni gael y bobl iawn yn agos i ni. Pobl sy’n gwneud pethau da ac yn dilyn Duw.

Chwaraewch gêm fach lle rydych yn gofyn i’ch plentyn nol rhywbeth i chi. Os ydych yn chwarae gyda mwy nag un plentyn, gwnewch o’n ras. Er enghraifft, y cyntaf i ddod a “rhywbeth glas” neu “llyfr” a.y.b..

Nesaf, lapiwch rhai eitemau mewn papur fel nad yw’r plentyn yn gwybod beth sydd tu mewn. Rhowch anrheg mewn un parsel ac eitemau sbwriel glân yn y lleill. Dywedwch wrth y plant i ddewis dim ond un parsel a dim ond un plentyn sy’n cael yr anrheg neis.


Eglurwch fel mae rhai dewisiadau yn anodd gwneud. Gwyddai gwas Abraham bod ganddo waith pwysig i’w wneud, felly gweddïodd i Dduw ei helpu. Rhannwch dystiolaeth o adeg pryd roeddech wedi gweddïo a helpodd Duw chi gyda dewis anodd. Gofynnwch i’ch plentyn os oes rhywbeth hoffen nhw weddïo amdano a gweddïwch gyda’ch gilydd.

Rhannwch sut arweiniodd Duw'r gwas at Rebeca. Doedd Rebeca heb wneud dim ond beth oedd ei angen, ond pan welodd bod y camelod yn sychedig, aeth i nôl dŵr iddyn nhw hefyd. Eglurwch cymaint o ymdrech byddai angen i gasglu cymaint o ddŵr. Os yw’n bosib, chwaraewch gêm ble mae’n rhaid i’ch plentyn gasglu dŵr o un ochr o’r ystafell i’r llall.

Rhowch esiampl o sut gallwn wneud da i eraill a mynd milltir yn ychwanegol. Eglurwch nad oedd Rebeca wedi gwneud da oherwydd bod hi eisiau gwobr, ond roedd wedi gwneud da oherwydd bod hi eisiau gwneud da.

Siaradwch am sut addolodd y gwas Duw am ateb ei weddi a rhannodd yr atebiad gweddi gydag eraill. Eglurwch fel mae’n bwysig diolch i Dduw am atebiad gweddi. Cymerwch rhai munudau i rannu atebion gweddi a diolchwch i Dduw amdanynt.

© 2022 truewaykids.com



Dywedodd y gwas wrth deulu Rebeca sut oedd Abraham wedi gofyn iddo ffeindio gwraig i'w fab.

Rhannodd sut arweiniodd Duw e at Rebeca. I'w theulu roedd hwn yn gynllun Duw. Priododd Isaac a Rebeca. Roeddynt yn caru' gilydd yn fawr iawn.

Bendithiodd Duw Isaac a Rebeca.






Gofalodd Abraham a Sara am eu mab Isaac.

Pan roedd bron yn ddigon hen i briodi, galwodd Abraham ar ei was a dywedodd," dos yn ôl i'r lle roeddem yn arfer byw a ffeindiwch wraig dda i fy mab."

Addawodd y gwas byddai'n gwneud ei orau.

Rhoddodd Abraham gamelod iddo a llwythodd e nhw gydag anrhegion arbennig.



Roedd yn siwrnai hir.


Roedd gwas Abraham a'r camelod yn flinedig a sychedig.

Cafodd y gwas syniad.

Gweddïodd a dywedodd,"Arglwydd, gadael i'r wraig dda i Isaac cynnig dŵr i mi a chynnig i'r camelod hefyd."

Gwyddai mai dim ond merch arbennig a charedig byddai'n gwneud hyn i ddyn dieithr.





Pan gyrhaeddodd y gwas y dref, gwelodd ddynes wrth y ffynnon. Ei henw oedd Rebeca.

Gofynnodd y gwas iddi am ddŵr i yfed.

Dywedodd Rebeca, "Dyma ychydig o ddŵr. Rhoddaf ddŵr i'ch camelod hefyd."

Roedd Duw wedi ateb gweddi'r gwas.

# Chwaraeon a gweithgareddau

## Ras gyfnewid dwr

Mae plant wrth eu bodd yn chwarae gyda dŵr, felly byddent eisiau chwarae'r

gêm yma drosodd a throsodd eto.

Llenwch fwced gyda dŵr a'i roi ar un ochr o'r ardd.

Ar yr ochr cyferbyn rhowch gynhwysydd llai a gwag.

Rhowch gwpan i'ch plentyn a'i gael i lenwi'r teclyn llai gyda dŵr. Cerdded nôl a blaen fel sy'n ofynnol a cheisio peidio colli'r dŵr.






## Pwyso eitemau

Casglwch eitemau pob dydd o gwmpas y tŷ. Dim byd rhy drwm.

Eisteddwch lawr a gofynnwch i'ch plentyn eu trefnu wrth eu pwysau. Nesaf, defnyddiwch gloriannau'r gegin i bwyso'r eitemau.

Edrychwch os ydynt wedi dyfalu'n gywir ac os ddim, symudwch yr eitemau o gwmpas i'w trefnu wrth eu pwysau.

## Breichledi crefft

Siaradwch am yr anrhegion cafodd Rebeca yn y darn wythnos yma. Defnyddiwch eich sgiliau crefft i wneud breichled.

Defnyddiwch leiniau, pasta, botymau, gwlân, edafedd, cortyn tenau, neu unrhyw ddefnyddiau eraill sydd gennych i fod yn greadigol.

Cynhwyswch y bechgyn trwy eu cael i baentio'r pasta yn lliwiau eu hoff dîm pêl- droed.



https://youtu.be/a2u_flN9woU

© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com


# Trefnwch trwy gynnwys

Torrwch allan y llun a rhowch nhw mewn trefn y rhai sy'n cynnwys mwyaf.




















© 2022 truewaykids.com

# Llenwch y bwcedi

Lliwiwch y bwcedi'n las hyd at y lefel dŵr cywir



Llawn Hanner Gwag



© 2022 truewaykids.com


# Tynnwch gylch o gwmpas y gwrthrych trymaf.
















© 2022 truewaykids.com

Llenwch bob cwpan gyda sudd o'r lliw cywir.



© 2022 truewaykids.com




© 2021 truewaykids.com

# Teclyn camel i ddal pensiliau.

Dyma grefft camel hawdd i'w wneud. Fel anrheg fach defnyddiwch e i ddal pensiliau neu losin.




## Pethau byddwch angen:

Templed
Pensiliau lliw / creonau
Siswrn
Glud
Tiwb cardbord


## Beth i'w wneud:




Lliwiwch luniau'r camelod



Cyfrwch un pen o'r tiwb cardbord.




Gludwch y lluniau camel arno. Tynnwch lun y coesau ar y tiwb.

https://youtu.be/snfd6tkQ5K8


© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com

# Amser addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## God Answers Prayer

https://youtu.be/ABoyVKTPY5c

## God is so good

https://youtu.be/eg3bvbDVUTg

## This Little Light Of Mine

https://youtu.be/cKkbIZtqhyQ



# Gweddi

Gweddïodd gwas Abraham a gofynnodd i Dduw ei helpu i ddewis yn gywir. Gofynnwch i Dduw eich helpu i wneud dewisiadau da.

Gofynnwch i Dduw dangos i chi ffyrdd i fod yn dda ac i helpu eraill fel Rebeca.

# Wythnos nesaf

Jacob

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2022 truewaykids.com